# Gweithredu arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth ar gyfer gwaith priffyrdd/ffyrdd

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gosod, gweithredu a thynnu offer arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth ar gyfer gwaith priffyrdd/ffyrdd.

Mae'n cynnwys gosod, codi a datgymalu offer gwarchod, lleoli, cynnal a chadw, symud a datgymalu offer rheoli traffig a rheoli offer traffig.

Gallai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gosod ac yn gweithredu arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth ar gyfer gwaith priffyrdd/ffyrdd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. defnyddio cyfarwyddiadau a manylebau gwaith perthnasol i nodi arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth sydd eu hangen i fodloni gofynion diogelwch
2. gosod a chodi offer diogelwch yn unol â'r codau ymarfer perthnasol
3. cadarnhau bod cyflwr a lleoliad yr offer diogelwch yn cyrraedd y gofynion gwaith a'i fod yn cyd-fynd â'r codau ymarfer perthnasol
4. lleoli, cynnal a chadw a rheoli offer rheoli traffig yn unol â'r gofynion gwaith, a chodau ymarfer perthnasol
5. addasu offer rheoli traffig yn unol â chynnydd y gwaith a newidiadau yn y gweithgareddau
6. hysbysu'r bobl berthnasol am offer diffygiol a difrodedig
7. adnabod unrhyw broblemau sy'n cael eu hachosi gan yr amgylchedd gwaith gydag arwyddion, goleuadau ac arferion gwarchodaeth yn unol â'r codau ymarfer perthnasol
8. tynnu offer diogelu ac offer rheoli traffig yn unol â'r codau ymarfer perthnasol
9. cyfeirio problemau a chyflyrau y tu hwnt i'ch cyfrifoldeb yn unol â'r gweithdrefnau ac arferion cymeradwy
10. gwneud gwaith yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, codau ymarfer a gofynion statudol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth briodol ar gyfer lled y ffordd, cyflymder y ffordd, cyfrif traffig, dodrefn stryd a hyd y gwaith
2. addasrwydd arwyddion, goleuadau a dulliau gwarchodaeth o ran cwrdd â gofynion y cod ymarfer
3. diben yr offer a ddefnyddir i ddiogelu gwaith priffyrdd/ffyrdd, gan gynnwys arwyddion, goleuadau, gardiau a signalau traffig cludadwy
4. y gwahanol fathau o offer rheoli traffig gan gynnwys arwyddion rhybudd, signalau blaenoriaeth, byrddau aros a mynd, goleuadau traffig symudol
5. mathau o gardiau ac offer rheoli traffig a ddefnyddir i ddiogelu gwaith priffyrdd/ffyrdd a'u gofynion lleoli yng nghyswllt y gwaith
6. sut i leoli a gweithredu rheoliadau traffig gan gynnwys arwyddion rhybudd, signalau blaenoriaeth, byrddau aros a mynd, goleuadau traffig symudol
7. sut i ddilyn cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod trefniadau rheoli traffig yn cael eu codi a'u datgymalu yn y drefn gywir
8. pwysigrwydd glanhau arwyddion a goleuadau yn yr ardal waith gyfagos yn ystod gwaith priffyrdd/ffyrdd
9. pwysigrwydd gwirio a rhoi gwybod i'r arweinydd tîm am unrhyw ddiffygion mewn arwyddion, gardiau, goleuadau, a systemau rheoli traffig
10. materion amgylcheddol sy'n ymwneud â gwaith sy'n mynd rhagddo gan gynnwys diogelwch y cyhoedd, traffig ysgolion, amodau newidiol fel y gwaith yn mynd yn ei flaen yn y tywyllwch ac ystyriaeth o'r effaith ar lygredd a thraffig gormodol
11. pwysigrwydd cydymffurfio â chyfarwyddiadau diogelwch a gweithdrefnol
12. ystod a diben y cyfarpar diogelu personol a ddefnyddir yn ystod gwaith priffyrdd/ffyrdd
13. pwysigrwydd gwirio a rhoi gwybod i'r arweinydd tîm am unrhyw ddiffygion mewn cyfarpar diogelu personol
14. deddfwriaeth, codau ymarfer, gweithdrefnau ac arferion y sefydliad ar gyfer iechyd, diogelwch a'r amgylchedd sy'n berthnasol i'ch gwaith o ran arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth
15. y camau i'w cymryd os bydd damwain neu argyfwng ar y briffordd/ffordd
16. gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer gwysio'r gwasanaethau brys
17. gweithdrefnau cofnodi ac adrodd ar ddamweiniau'r sefydliad

EUSMUNC15

Gweithredu arwyddion, goleuadau a gwarchodaeth ar gyfer gwaith priffyrdd/ffyrdd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSGNC004, EUSGNC005 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau, Adeiladu Rhwydwaith Nwy |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau |
| **Geiriau Allweddol** | rhwydwaith, adeiladu, gweithrediadau, cyfleustod, cyfleustodau, nwy, LPG, hydrogen, dŵr, priffordd, ffordd, diogelwch, arwyddion, goleuadau, gwarchod, codi, datgymalu, diogelu offer, traffig offer rheoli, aml-gyfleustod |